

Dechrau Blwyddyn

Darllen: Luc 13:6–9

Coeden ddigon cyffredin ym Mhalestina yng nghyfnod Iesu oedd y ffigysbren – coeden a dyfai mewn unrhyw fath o amgylchfyd, boed ar ddannedd y graig neu mewn pridd ffrwythlon yn y winllan. Mae'n werth sylwi i ddechrau ar gylch bywyd y goeden. Mae'n colli ei dail yn yr hydref, ond wrth i'r gwanwyn ddod bydd ffrwythau a dail yn ymddangos ym môn y goeden. Erbyn diwedd y gwanwyn bydd ffrwythau dipyn mwy eu maint yn ymddangos yng nghanol y goeden, ac erbyn diwedd yr haf bydd cnwd o ffigys yn ymddangos ar frig y goeden. Dyma'r ffigys y byddwn ni'n eu bwyta. Ac yn ôl pob hanes bydd y goeden yn cymryd tair blynedd i aeddfedu yn bren gwerthfawr a chynhyrchiol.

Yn nameg y ffigysbren ddiffrwyth, siom a gafodd y perchennog wrth ddod i'r winllan gyda'r gwinllannydd – sylwodd nad oedd y ffigysbren wedi ffrwytho 'ers tair blynedd bellach' a'i ateb ef i'r broblem oedd ei thorri i lawr a'i difa. Ond mae graslonrwydd y gwinllannydd, a oedd yn adnabod ei goed, yn amlwg. Ei ateb ef oedd rhoi blwyddyn arall i'r goeden ac mynd ati'n bersonol i balu a gwrteithio o'i chwmpas er mwyn rhoi 'cyfle' arall iddi. Pam oedd y perchennog yn awyddus i dorri'r goeden? Am nad oedd hi'n gwneud ei rhan. Roedd wedi cael pob chwarae teg – wedi ei phlannu mewn gwinllan, mewn tir ffrwythlon da, mewn lle arbennig i goed dyfu ac aeddfedu. Ond er iddi gael pob chwarae teg, doedd hi ddim wedi gwneud ei rhan a ffrwytho. Mynnai Iesu gydol ei weinidogaeth y byddai pobl yn cael eu barnu yn ôl y cyfle a roddwyd iddyn nhw. Cawsant gyfle i fynd i swper mawr, ond hel esgusodion wnaeth pob un ohonyn nhw.

Mae'r gwinllannydd yn raslon ac yn rhoi cyfle arall i'r ffigysbren. A dyna hanes Duw yn ei berthynas â dyn. Rhoddwyd ail gyfle i Simon Pedr ar ôl cyflafan Calfaria. 'Simon fab Ioan, a wyt ti'n fy ngharu i yn fwy na'r rhai hyn?' oedd cwestiwn Iesu iddo wedi'r Atgyfodiad. Rhoddodd Duw ail

gyfle i'n cenedl ni yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Galwodd wŷr ieuainc i danio'r genedl ac i arwain ei bobl i brofiadau ac anturiaethau newydd. Roedd y dynion hyn yn barod i ufuddhau a mynd ati i efengyleiddio a rhannu cariad Duw â'u cyd-ddynion. Dynion ar dân oedd dynion yr ail gyfle.

Neges ganolog y ddameg hon i'r Iddewon yw mai Iesu yw'r cyfle olaf. Daeth Duw ei hun i blith dynion, ac ni allai wneud dim mwy. Drwy wrthod y Mab rydyn ni hefyd yn gwrthod y Tad, oherwydd meddai Iesu, 'Myfi a'r Tad un ydym'.

Mae yn y ddameg alwad daer i edifeirwch, a honno'n alwad i genedl gyfan. Daeth Iesu i'r byd i gyfeirio pobl ar hyd ffordd iachawdwriaeth, i wrando, edifarhau ac ymddiried yng ngras a thrugaredd Duw. Galwad sydd yma i ymateb ar frys i her Duw, a ddaeth i'r byd yn Iesu Grist, ac i'r bywyd newydd y mae Iesu'n ei gynnig i'r ddynoliaeth ac i'n cenedl ni.

Myfyrdod pellach:

Sut mae ymateb i her Duw heddiw?

Beth fydddech chi'n ei ddymuno'i weld yn digwydd yn 'grefyddol' yng Nghymru heddiw?